Tribiwnlys Prisio Cymru

Apeliadau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Canllaw i'n

Hysbysiad am Wrandawiad

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys pob pwynt am y Tribiwnlys Prisio. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn y canllaw hwn ac nid yw'n effeithio ar sut y defnyddiwn y cyfreithiau neu reoliadau perthnasol. Cyn i ni glywed eich apêl, bydd Clerc Rhanbarthol y Tribiwnlys yn ateb unrhyw gais rhesymol sydd gennych ynglŷn â chyngor am y weithdrefn.

BETH YW HYSBYSIAD AM WRANDAWIAD?

Mae ein Hysbysiad am Wrandawiad yn rhoi gwybod i chi pryd a ble y bydd y Tribiwnlys Prisio yn ystyried eich apêl.

Os na allwch ddod i'r gwrandawiad ar y diwrnod a drefnwyd ac mae rheswm da gennych am fethu â bod yn bresennol, dylech gysylltu â swyddfa'r Tribiwnlys a gofyn am ddyddiad arall. Os bydd angen oedi, gall gymryd peth amser cyn y gallwn roi dyddiad am wrandawiad newydd i chi.

Os bydd y manylion a roddir yn yr Hysbysiad yn anghywir o gwbl, dylid cysylltu â Swyddfa'r Tribiwnlys ar unwaith.

BETH DDYLWN EI WNEUD NESAF?

Mae'r Tribiwnlys yn disgwyl i chi fod wedi trafod eich apêl gyda'r Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) i geisio ei datrys cyn dyddiad y gwrandawiad. Os llwyddwch i ddatrys eich apêl, dylech roi gwybod i Swyddfa'r Tribiwnlys.

Gallwch dynnu eich apêl yn ôl, mewn ysgrifen, ar unrhyw adeg cyn dyddiad y gwrandawiad.

SUT YDW I'N PARATOI FY ACHOS AR GYFER GWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Os ydych yn dymuno mynychu gwrandawiad y Tribiwnlys, mae angen i chi baratoi eich achos cyn dyddiad y gwrandawiad. Ceisiwch roi cymaint o dystiolaeth ag sy'n bosibl i gefnogi eich achos.

Bydd y Tribiwnlys yn disgwyl i'r partïon fod wedi cytuno ar y ffeithiau a datgelu unrhyw wybodaeth y dibynnir arni yn y gwrandawiad.

Gofynnir i gynrychiolydd yr Awdurdod Bilio esbonio'r rhesymau y tu ôl i'w benderfyniad i'r Tribiwnlys. Bydd y Tribiwnlys yn disgwyl i chi roi tystiolaeth i gefnogi eich achos chi.

Fe gewch chi:

- roi tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- cyflwyno unrhyw beth a fydd, yn eich barn chi, yn helpu eich achos; a
- dod â rhywun gyda chi i siarad drosoch neu i ymddangos fel tyst.

OES ANGEN I MI DDOD I'R GWRANDAWIAD?

Fel arfer, mae'n well i chi ddod i'r gwrandawiad fel eich bod yn gallu rhoi eich achos, ateb unrhyw gwestiynau a all fod gan y Tribiwnlys a byddwch yn gallu gofyn cwestiynau i'r Cyngor. Fodd bynnag, gellir delio â'ch apêl yn eich absenoldeb.

Sylwadau ysgrifenedig (yn unol â Rheoliadau TPC).

Ni all y Tribiwnlys ddelio â'ch apêl yn y ffordd hon **oni bai bod pob parti'n cytuno i ddefnyddio'r dull hwn**.

Pan gaiff apêl ei phennu trwy gyfrwng sylwadau ysgrifenedig, dim ond y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarperir gan bob parti sy'n gallu cael ei hystyried. Nid yw'r partïon yn bresennol mewn gwrandawiadau o'r fath.

Os bydd pawb yn cytuno, mewn ysgrifen, rhoddir gwybod i chi am y weithdrefn.

Gall y Tribiwnlys ofyn i'r partïon am fwy o dystiolaeth neu fe all benderfynu na all ddelio â'r achos ond trwy gynnal gwrandawiad ffurfiol.

Cyflwyniad ysgrifenedig

Os ydych yn dymuno i'r Tribiwnlys glywed eich achos yn eich absenoldeb, mae'n rhaid i chi ysgrifennu at swyddfa'r Tribiwnlys cyn y gwrandawiad a rhoi manylion unrhyw bwyntiau yr ydych chi'n dymuno iddynt gael eu hystyried. Mae'r Cyngor yn dal i gael dod i wrandawiad y Tribiwnlys.

Os nad ydych wedi rhoi gwybod i'r Tribiwnlys eich bod yn dymuno iddo ystyried eich apêl yn eich absenoldeb ac nad ydych chi na'ch cynrychiolydd yn mynychu'r gwrandawiad, gall y Tribiwnlys wrthod yr apêl.

PWY FYDD YN Y GWRANDAWIAD?

Aelodau'r Tribiwnlys Prisio

Fel arfer, bydd tri Aelod yn clywed eich apêl, (er gall dau Aelod glywed apêl os bydd pawb yn y gwrandawiad yn cytuno). Bydd un o'r Aelodau'n cadeirio'r cyfarfod. Mae Aelodau'r Tribiwnlys yn bobl leol sy'n wirfoddolwyr. Er nad ydynt efallai wedi'u cymhwyso'n broffesiynol, maent yn derbyn hyfforddiant ac yn brofiadol o ran clywed apeliadau. Mae Aelodau'r Tribiwnlys yn annibynnol ar y Cyngor/Awdurdod Bilio (AB) sy'n danfon biliau'r Dreth Gyngor ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n asesu'r bandiau ar eiddo.

Y Clerc

Bydd y Clerc yn gweithredu fel ymgynghorydd ar bwyntiau'n ymwneud â gweithdrefnau a'r gyfraith. Mae'r Clerc yn weithiwr cyflogedig yn y Tribiwnlys ac nid yw'n cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad. Fodd bynnag, mae'r Clerc yn gyfrifol am ysgrifennu'r penderfyniad i fyny.

Cynrychiolydd o'r Awdurdod Bilio

Efallai eich bod wedi cwrdd ag aelod o staff yr Awdurdod Bilio'n barod fydd yn bresennol er mwyn amddiffyn ei achos.

Chi

Gallwch ddod i wrandawiad y tribiwnlys neu gallwch ddewis cynrychiolydd, er enghraifft, ffrind neu ymgynghorydd proffesiynol, i weithredu ar eich rhan. (Dylai fod gan unrhyw un sy'n mynychu ar eich rhan eich caniatâd ysgrifenedig i wneud hynny).

Hefyd, cewch ddod â rhywun gyda chi fel tyst.

Aelodau o'r cyhoedd

Cynhelir y gwrandawiadau yn gyhoeddus oni bai bod sail eithriadol i'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat. Fel arfer, yr unig bobl eraill sy'n dod i wrandawiad yw pobl eraill sy'n aros i'w hachos gael ei glywed.

BETH SY'N DIGWYDD YNG NGWRANDAWIAD Y TRIBIWNLYS?

Mae'r gwrandawiad yn weddol anffurfiol a gwnawn ein gorau i sicrhau bod pawb yn gartrefol. Fodd bynnag, bydd y Tribiwnlys yn dilyn gweithdrefn i wneud yn siŵr y gall pob parti gyflwyno eu hachosion.

Y Tribiwnlys fydd yn penderfynu pwy sy'n dechrau.

Yn ystod y gwrandawiad:

- bydd pob parti yn rhoi ei achos;
- pan ofynnir i chi gyflwyno eich tystiolaeth, cewch alw ar unrhyw dyst i gefnogi eich achos;
- gallwch ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
- gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i chi; a
- efallai bydd y Tribiwnlys yn gofyn cwestiynau i chi ac i'r partïon eraill.

Cyn i'r Aelodau adael yr ystafell i wneud y penderfyniad, gallant ofyn i'r ddwy ochr grynhoi eu hachosion.

Os na ddewch i'r gwrandawiad ac na chewch eich cynrychioli yn y gwrandawiad neu os nad ydych wedi gofyn am wrandawiad yn defnyddio cyflwyniadau ysgrifenedig, gall y Tribiwnlys wrthod eich apêl.

BETH PETAI GEN I ANGHENION YCHWANEGOL?

Os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol, er enghraifft, o ran eich golwg, clyw neu symudedd, rhowch wybod i swyddfa'r Tribiwnlys cyn dyddiad y gwrandawiad a thalwn gost trefnu lleoliad addas neu unrhyw offer sydd eu hangen i glywed eich apêl.

Gellir gwneud trefniadau ar gyfer cyfieithu o wneud cais amdano os nad yw eisoes wedi'i nodi yn eich apêl. Hefyd, gallwn ddarparu rhywun i gyfathrebu â chi mewn iaith arwyddion (arwyddwr).

Rhowch wybod i swyddfa'r Tribiwnlys mewn da bryd os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol, os gwelwch yn dda.

A GAF I WYBOD AM Y PENDERFYNIAD AR Y DIWRNOD?

Gall y Tribiwnlys roi'r penderfyniad ar lafar ar ddiwedd y gwrandawiad. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r Tribiwnlysoedd yn anfon eu penderfyniadau trwy'r post. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i ni roi copi ysgrifenedig o'r rhesymau am y penderfyniad i chi. Bydd y Tribiwnlys yn rhoi gwybod i chi pryd gallwch ddisgwyl y penderfyniad ysgrifenedig.

A GAIFF Y TRIBIWNLYS DDYFARNU COSTAU?

Na chaiff, mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Dim ond eich treuliau eich hun (a threuliau unrhyw un sy'n eich cynrychioli) wrth baratoi eich achos a dod i'r gwrandawiad y mae'n rhaid i chi eu talu.

A GAF GWYNO AM Y GWASANAETH A DDARPARWYD?

Os oes gennych gŵyn am y ffordd y mae gweinyddiaeth y Tribiwnlys wedi ymdrin â'ch achos, dylech ysgrifennu at Glerc y Tribiwnlys yn y lle cyntaf, yn y cyfeiriad a nodir ar eich Hysbysiadau. Rhoddir gwybod i chi am weithdrefn gwyno lawn y Tribiwnlys, gan gynnwys y posibilrwydd o godi eich cwyn gyda'r Prif Weithredwr, yn ymateb y Clerc.

Cewch ddefnyddio'r broses hon i wneud cwyn am y ffordd y deliwyd â'ch cwyn yn weinyddol gan y Tribiwnlys yn unig. Bydd unrhyw apelio pellach yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys yn mynd i'r llysoedd uwch.

GWYBODAETH BELLACH

Mae'n arfer gan DPC i baratoi hysbysiadau yn y Gymraeg neu yn y Saesneg gan ddibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd yn eich apêl gychwynnol. Mae wedi'i ymrwymo i ddarparu lefel gwasanaeth yr un mor uchel yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o daflenni sy'n rhoi gwybodaeth am ein gwasanaethau. Mae ein canllawiau eraill yn cynnwys:

- cyngor cyffredinol ar apelio i'r Tribiwnlys;
- canllaw i'n hysbysiad am gydnabyddiaeth; a
- canllaw i'n hysbysiad am benderfyniad.

Pe hoffech dderbyn unrhyw un o'r canllawiau hyn, cysylltwch â swyddfa'r Tribiwnlys yn y cyfeiriad a ddangosir ar ein hysbysiadau. Fel arall, gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y Tribiwnlys Prisio, copïau o'n taflenni canllaw i gyd a phrotocolau (arferion a gweithdrefnau) y Tribiwnlys ar ein gwefan:

www.valuation-tribunals-wales.org.uk

EIN COFNODION

Yn ôl y gyfraith, caiff unrhyw un ymweld â swyddfeydd y Tribiwnlys i edrych ar gopïau o agendâu a phenderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Rhestri o apeliadau yw'r agendâu sydd wedi derbyn dyddiad ar gyfer gwrandawiad.

DEDDFWRIAETH BERTHNASOL

Dyma'r brif ddeddfwriaeth y gweinyddir Gostyngiadau'r Dreth Gyngor o dani:

- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992; a
- Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012.

Mae'r offerynnau statudol canlynol yn gosod y rheolau y mae'n rhaid i'r Cyngor a'r Tribiwnlys ddelio ag unrhyw apeliadau Gostyngiadau Treth Gyngor o danynt:

- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 (OS 2012 Rhif 3144);
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 (OS 2012 Rhif 3145); a
- Rheoliadau Tribiwnlys Prisio (Cymru) 2010 (OS 2010 Rhif 3056) fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Cymru) (Diwygio) 2013.

CYSYLLTIADAU SWYDDFA I DPC

Rhanbarth Dwyrain Cymru

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth Dwyrain Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Ffôn: 01633 266367
Ffacs: 01633 253270
E-bost: VTWaleseast@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cynghorau/ABau

CS Powys
CBS Blaenau Gwent
CBS Caerffili
CS Sir Fynwy
Cyngor Dinas Casnewydd
CBS Torfaen

Rhanbarth Gogledd Cymru

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth Gogledd Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth, Bloc A (L1)
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn: 03000 625350
Ffacs: 03000 625368
E-bost: VTWalesnorth@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cynghorau/ABau

CBS Wrecsam
CS Sir y Fflint
CS Sir Ddinbych
CS Gwynedd
CS Ynys Môn
CBS Conwy

Rhanbarth De Cymru

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth De Cymru
22 Gold Tops
Casnewydd
NP20 4PG
Ffôn: 01633 255003
Ffacs: 01633 255004
E-bost: VTWalessouth@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cynghorau/ABau

CBS Pen-y-Bont ar Ogwr
CD Caerdydd
CBS Rhondda Cynon Taf
CBS Bro Morgannwg
CBS Merthyr Tudful

Rhanbarth Gorllewin Cymru

Tribiwnlys Prisio Cymru
Rhanbarth Gorllewin Cymru
Llys y Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
Abertawe
SA4 9NX
Ffôn: 03000 254530
Ffacs: 03000 254522
E-bost: VTWaleswest@vtw.gsi.gov.uk

Ardaloedd: Cynghorau/ABau

CBS Castell-nedd-Port Talbot
Dinas a Sir Abertawe
CS Sir Gaerfyrddin (Rhan 3)
CS Sir Gaerfyrddin (Rhan 1 & 2)
CS Ceredigion
CS Sir Benfro